| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Cyngor Sir Ynys Mon** |
| Dyddiad: | **19 Rhagfyr 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Newid yr amser a Ganiateir i Siaradwyr Cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio) a'r Cynghorydd Carwyn Jones (Corfforaethol a Profiad y Cwsmer)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian L Branch, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd;<br>Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| Awdur yr Adroddiad:<br><br>E-bost: | **Robyn Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Dyfan Sion, Gwasanaethau Democrataidd<br><br>RobynJones@ynysmon.llyw.cymru<br>dyfansion@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i bawb** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

I newid y cyfeiriad ym mharagraff 4.6.21.6 o'r Cyfansoddiad o 3 munud i 5 munud (sef y cyfnod sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio).

Argymhelliad:

1. Bod y Cyngor llawn yn gwneud y newid i 5 munud ac yn dirprwyo:
    a. I'r Swyddog Monitro yr hawl i gyflawni'r newid i'r Cyfansoddiad, ac:
    b. I'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio i newid y cyfeiriad yn y gwaith papur sy'n gysylltiedig a'r drefn i nodi mae 5 munud sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r drefn o siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio yn weithredol ers sawl blwyddyn bellach. Ers iddo gychwyn y cyfnod sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus gyfarch y Pwyllgor ydi 3 munud.

Yn ddiweddar mae ambell sylw wedi dod o lawr y Pwyllgor yn ymholi os y dyla'r cyfnod gael ei ymestyn. Mae cynnig i ymestyn y cyfnod i 5 munud wedi ennill derbyniaeth gan yr Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Gwaith.



00766663

Mae'r cynnig i ymestyn y cyfnod wedi bod yn destun ymgynghoriad efo'r Pwyllgor Cynllunio hefyd.

Mae cynyddu'r amser sydd ar gael i siaradwyr cyhoeddus i 5 munud yn creu cysondeb efo'r cyfnod o amser sydd ar gael i aelodau etholedig i annerch y Pwyllgor – gan gynnwys yr aelodau lleol ar gyfer safle'r cais sydd o dan sylw (paragraff 4.1.15.4 o'r Cyfansoddiad fel mae'n berthnasol i'r Pwyllgor Cynllunio drwy baragraff 4.1.28).

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n ofynnol bod newid i'r Cyfansoddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn gyntaf (paragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad) cyn mynd i'r Cyngor llawn am awdurdodaeth.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ddim yn berthnasol

## D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ni fydd yna effaith ariannol uniongyrchol oherwydd y newid yma, ond fe all ymestyn ychydig ar hyd rhai cyfarfodydd o'r Pwyllgor (gan ddibynnu faint o siarad cyhoeddus fydd ar y Rhaglen)

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Ddim yn berthnasol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ddim yn berthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ddim yn berthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini | Ddim yn berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r newid yn rhoi mwy o gyfle i aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno eu sylwadau i'r Pwyllgor Cynllunio |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ddim yn berthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ddim yn berthnasol |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Prif weithredwr yn cefnogi'r newid |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi eu cynnwys fel aelod o'r TA |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Cyd-awdur yr adroddiad yma. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | ***/*** |
| 5 | Eiddo | ***/*** |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | ***/*** |
| 7 | Caffael | ***/*** |
| 8 | Sgriwtini | ***/*** |
| 9 | Aelodau Lleol | Arweinyddion Grwp yn gefnogol. |
| 10 | Cynllunio | Pwyllgor Cynllunio a'r Rheolwr datblygu cynllunio yn cefnogi'r datblygiad. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Dim** |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| **Dim** |